Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 20.11.2020

## Grant Ardrethi Annomestig y clo bach yn cau am 5:00pm heddiw – Grant Dewisol yn parhau ar agor

Mae Cyngor Gwynedd yn annog busnesau'r sir i gyflwyno eu ceisiadau ar gyfer cymorth ariannol Llywodraeth Cymru sydd ar gael i helpu cwmnïau sydd wedi'u heffeithio gan y cyfnod clo byr. Bydd y Grantiau Ardrethi Annomestig a weinyddir gan yr Awdurdodau Lleol yn cau am 5:00pm heddiw, 20 Tachwedd 2020. Bydd Grant Dewisol y Cyfyngiadau yn parhau ar agor am y tro ond peidiwch ag oedi i ymgeisio! Wrth ymgeisio, bydd sicrhau bod yr holl ddogfennau perthnasol sy'n ofynnol yn cael eu darparu, a sicrhau bod y cais yn cael ei lenwi'n gywir yn cyflymu'r broses. Am fwy o wybodaeth ac i ymgeisio ewch i:

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau/Cymorth,-cefnogaeth-a-hyfforddiant/Grantiau-cloi.aspx

## Cronfa Gweithwyr Llawrydd Creadigol Cam 3 yn agor 23 Tachwedd 2020

Yn dilyn y galw uchel am gyllid ar draws y sectorau celfyddydol a diwylliannol, bydd Cam 3 y Gronfa Gweithwyr Llawrydd ar agor ar gyfer ceisiadau ddydd Llun 23 Tachwedd 2020. I wirio eich cymhwysedd cyn i'r broses ymgeisio agor ewch i:

https://fundchecker.businesswales.gov.wales/culture/cy

## Mae Tŷ'r Cwmnïau yn rhyddhau cyngor 'peidiwch â'i adael tan y funud olaf' i fusnesau

Mae Tŷ'r Cwmnïau wedi cyhoeddi datganiad i'r wasg yn annog cyfarwyddwyr cwmnïau a chyfrifwyr i ffeilio'n gynt nag arfer ac ar-lein. Anogir cwmnïau ledled y DU i beidio â gadael ffeilio eu cyfrifon blynyddol tan y funud olaf ac ystyried mynd yn ddi-bapur, gan fod yr aflonyddwch a achosir gan glefyd coronafeirws(COVID-19) yn parhau i effeithio ar fywydau pobl, busnesau a'r economi. Ewch i:

https://bit.ly/35KJvB5

## Diweddariad Brexit: Cyfnod prawf y Gwasanaeth Allforio Pysgod

Bydd allforwyr pysgod a bwyd môr yn gallu rhoi cynnig ar y Gwasanaeth Allforio Pysgod dros y pedair wythnos nesaf. Bydd y gwasanaeth yn agor ar gyfer cyfnod prawf a phrofi er mwyn caniatáu i fusnesau fewngofnodi, ymgyfarwyddo â'r system a chreu dogfennau sampl cyn iddo fynd yn gwbl fyw ar 29 Rhagfyr 2020. Ewch i:

https://bit.ly/396mfzH

## Holi'r arbenigwr: Cyflymu Cymru i Fusnesau yn ateb eich cwestiynau digidol

Drwy gydol y pandemig mae'r byd digidol wedi bod yn achubiaeth i berchnogion busnesau bach, gan eu helpu i gadw mewn cysylltiad â chwsmeriaid, gwerthu ar-lein a chadw eu busnes i fynd tra mae nhw wedi eu

cyfyngu gan gyfyngiadau COVID-19. Mae Cyflymu Cymru i Fusnesau (CCIF) yn cynnal gweminarau cyson, ac yn dilyn o'r sesiynau yma, mae pedwar o gwestiynau wedi cael eu gofyn dro ar ôl tro.

- Sut mae modd i mi farchnata fy musnes ar-lein?
- Sut mae modd i mi werthu ar-lein?
- Sut mae modd i mi redeg fy musnes ar-lein?
- Sut mae modd i mi ddefnyddio digidol i arbed amser a bod yn fwy effeithlon?

Mae un o hyfforddwyr Cyflymu Cymru i Fusnesau, Austin Walters, yn ateb y cwestiynau yma sydd wedi eu gofyn am y byd digidol. Ewch i:

https://bit.ly/CCIFAtebionDigidol

Am fwy o wybodaeth am y cymorth a gweminarau sydd ar gael gan CCIF, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy/digwyddiadau

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

# FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

# Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru